



BWLETIN GWYBODAETH

Plant a Phobl Ifanc

Tachwedd 2008

MALLC: MYNEGAI PLANT - YMGYNGHORI

Ar 30 Medi, cyhoeddodd Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru yr Ymgyngoriad ar y dull a'r dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Mynegai Plant. Dyma'r tro cyntaf i Fynegai Amddifadedd Plant gael ei gyhoeddi ar gyfer Cymru. Mae'n fesur o amddifadedd plant mewn ardaloedd bychain yng Nghymru ac mae'n seiliedig ar saith maes gwahanol o amddifadedd sy'n modelu gwahanol agweddau o amddifadedd.

Ble / pryd? - Canolfan Fusnes Conwy – Dydd Iau 20 Tachwedd 2008 (10:30 hyd 15:00)

Pwy ddylai fynychu? - Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn mesur amddifadedd plant, yn enwedig lle mae'r diddordeb yma angen gwybodaeth ar lefel lleol. Bydd y ffocws ar y ffactorau pwysig i amddifadedd ymysg plant a'r math o fesur sydd ei angen, nid trafodaeth dechnegol.

I drefnu'ch lle, cysylltwch â: ● E-bost: bookings.stats@wales.gsi.gov.uk ● Ffôn: 029 2082 5375 ● Ffacs: 029 2082 5350

GWEFAN NEWYDD - DATRYS TLODI PLANT - CYMRU



Datrys Tlodi Plant - Cymru

Lleiau tlodi plant lleol trwy gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus

Mae **Datrys Tlodi Plant - Cymru** yn becyn cymorth ar-lein gyda'r nod o helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddatblygu eu gwaith wrth fynd i'r afael â thlodi plant.

Y wefan hon yw'r gyntaf o'i math yng Nghymru ac mae'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth am dlodi plant, yn darparu cyngor a chanllawiau ar sut i wella, ac yn fforwm i drafod materion a datblygu arfer gorau.

www.childpovertysolutions.org.uk

CYNHADLEDD FLYNYDDOL POLISI AC YMARFER - 4 RHAGFYR 2008



Mae trosi amcanion polisi yn effeithlon i ymarfer yn her sylweddol. Bydd y gynhadledd hon yn edrych ar y fframwaith polisi plant ar y naill law a her gweithredu ar y llall.

Bydd siaradwyr cyweirnod yn tynnu sylw at fframweithiau polisi presennol a chyflenwi gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru gan ganolbwyntio ar feysydd eang yn cynnwys Lles (yn cynnwys Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru); Gweithio Partneriaeth Effeithlon; Ymyriad Cynnar; Atal Tlodi Plant ac Allgau Cymdeithasol a rôl ehangach Addysg.

Bydd y gweithdai yn tynnu agweddau pwysig o bob un o'r meysydd hyn gan roi cyfle i gynrychiolwyr ymchwilio rhai o'r ffactorau sy'n helpu neu lesteirio gweithredu a rhannu rhai enghreifftiau arfer da o bob rhan o Gymru. Bydd cyfle i gynrychiolwyr ddod ag arddangosiadau a llenyddiaeth i'w rhannu gyda chydweithwyr.

Mae'r gynhadledd yn bennaf ar gyfer gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes plant a theuluoedd.

Cost: Aelodau Plant yng Nghymru £80 ● Rhai heb fod yn aelodau £95

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Plant yng Nghymru. Ffôn: 029 2034 2434 E-bost: info@childreninwales.org.uk

NCH WEDI NEWID EI ENW I 'GWEITHREDU DROS BLANT'



Cofiwch mai'r enw newydd bellach i **NCH** (National Children's Home) yw '**Gweithredu dros Blant**'. '**Bodoli er mwyn plant**' yw craidd y ddelwedd newydd sy'n adlewyrchu'n well y gwaith a'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

Nod '**Gweithredu dros Blant**' yw ymroddi i helpu'r plant a'r bobl ifanc fwyaf bregus yn y DU a chwalu anghyfiawnder, amddifadedd ac anghydraddoldeb, er mwyn iddynt allu cyflawni eu llawn botensial.

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'u gwefan:

www.actionforchildren.org.uk

DEISEBU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU



CYFLEOEDD NEWYDD I'R SECTOR GWIRFODDOL GYMRYD RHAN

Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2008 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd - 9.30am - 12.00pm

Mae system deisebau newydd y Cynulliad yn rhoi cyfle unigryw i'r sector gwirfoddol yng Nghymru ddwyn materion at sylw Aelodau'r Cynulliad, ennill cefnogaeth ar gyfer ymgyrchoedd ac awgrymu syniadau ar gyfer newid polisiau neu ddeddfwriaeth. Os

hoffech chi wybod sut mae'r system deisebau yn gweithio; yr hyn y mae'r Pwyllgor Deisebau yn ei wneud; yr hyn sy'n gwneud deiseb lwyddiannus a sut y gallai eich mudiad chi ddefnyddio'r broses deisebau, mae'r digwyddiad hwn yn berffaith i chi.

Mae'r digwyddiad wedi'i anelu at fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio yng Nghymru. Gan fod prosiect Lleisiau dros Newid WCVA yn cael ei gefnogi gan y Gronfa Loteri Fawr, a diolch i gefnogaeth hael Positif Politics, mae'r digwyddiad hwn yn cael ei gynnal yn rhad ac am ddim.

Daw'r digwyddiad i ben gyda chinio ysgafn a chyfle i rwydweithio.

Mae llefydd yn brin ac fe'u rhoddir ar sail y cyntaf i'r felin, felly i gadw eich lle anfonwch e-bost i: fcc@wcva.org.uk neu ffonio: 029 2043 1720.

SEMINAR YMCHWIL PLANT A PHOBL IFANC - 14 TACHWEDD 2008

Mae **Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd** yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio, comisiynu ac ymgymryd ag ymchwil i gynorthwyo prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau ac i wella'r modd y darperir gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Cynhelir Seminar Ymchwil Plant a Phobl Ifanc yn y Galeri, dydd Gwener 14eg Tachwedd am 12.30pm.

Nod y seminar yw dod ag ymchwilwyr, ymarferwyr a rheolwyr at ei gilydd i ddysgu mwy am ymchwil ym maes plant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio'n benodol ar y materion ymarferol a moesol sydd angen eu hystyried wrth gynnwys plant a phobl ifanc mewn ymchwil, gweithio gyda phobl ifanc fel ymchwilwyr a defnyddio ymchwil i ddatblygu polisi a gwella ymarfer.

Os hoffech chi fynychu, dylech **gofrestru eich lle cyn dydd Gwener 7fed Tachwedd**. Cysylltwch ag Elin Wyn Hughes ar:

- E-bost: cynllunppi@gwynedd.gov.uk
- Ffôn: 01286 679653
- Ffacs: 01286 677347



DIGWYDDIADAU A HYFFORDDIANT - MANTELL / FFORWM

Fel rhan o gyfrifoldebau'r swydd Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc, dwi yn ymrwymo eleni i geisio cychwyn cynnig rhaglen fer o sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant perthnasol i fudiadau Trydydd Sector y sir sy'n gweithio yn y maes plant a phobl ifanc. Y gobaith, yw cynnal amrywiaeth o ran cynnwys a hefyd o ran cymhwyster i unigolion fel bo modd ehangu ar y gofyn i'r dyfodol yn ddibynnol ar alw a chyllideb wrth gwrs! Byddwn yn gobeithio gallu cynnig yr hyfforddiant unai'n rhad ac am ddim neu am bris rhesymol iawn! Felly, os hoffech gyfrannu at y broses o lunio rhaglen i'r dyfodol, cysylltwch ar unwaith.

GWYBODAETH

Gan fod yr Hwylusydd yn cydweithio yn agos â Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd, ac am barhau'r drefn bresennol, bydd nifer o'r sesiynau gwybodaeth yn debygol o gymryd lle yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith y Fforwm oni bai fod galw am rywbeth ychydig yn wahanol!

CYRSIAU / HYFFORDDIANT

Rydym eisoes wedi adnabod 3 maes o ddiddordeb ar gais nifer o unigolion ac wedi cychwyn ar y broses o drefnu sesiynau hyfforddiant yn y meysydd yma. Byddwn yn anelu i'w cynnig cyn diwedd Mawrth 2009. Dyma'r cynigion (mwy o wybodaeth a dyddiadau i ddilyn):

- **What Every Volunteer Youth Worker Should Know** - Cwrs 3 diwrnod (ganol wythnos) neu dros benwythnos ac un diwrnod arall ychwanegol i ddilyn! Tystysgrif yn unig.
- **Gweithio gyda Phobl Ifanc a Datblygiad Cymunedol** - Cwrs 4 diwrnod wedi ei achredu (2 ddiwrnod 'Gweithio gyda Phobl Ifanc' a 2 ddiwrnod 'Datblygiad Cymunedol').
- **Cyd-destun a Fframwaith Polisiâu Diogelu Plant a Phobl Ifanc** – cwrs un diwrnod., tystysgrif yn unig.

Os hoffech ddatgan diddordeb yn un o'r cyrsiau uchod neu fel y bu i mi grybwyll, cyfrannu at raglen y dyfodol yna cysylltwch â mi. (**Gweler y manylion cyswllt isod**).

BBC - PLANT MEWN ANGEN - 14 TACHWEDD 2008

GWNEWCH RYWBETH GWAHANOL!

Fyddech chi yn hoffi cymryd rhan yn ymgyrch 'Plant Mewn Angen' y BBC ond yn brin o syniadau? Fyddech chi yn hoffi helpu i wneud gwahaniaeth eleni ond ddim yn siwr iawn sut?

Archebwch eich **pecyn codi arian** oddi ar wefan 'Plant Mewn Angen' (www.bbc.co.uk/pudsey) ac fe gewch amryw o syniadau ar sut i fynd ati i wneud eich digwyddiad chi yn llwyddiant!

Nod 'Plant Mewn Angen' yw gwneud newid positif i fywydau plant a phobl ifanc dan anfantais yn y DU. Eu gweledigaeth yw cymdeithas lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cymorth i gyflawni eu llawn botensial.

Codwyd dros **£37m yn 2007** sy'n cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau ar draws y DU i helpu'r rhai llai ffodus mewn cymdeithas. Mae maint a graddfa'r apêl mor sylweddol bellach fel bo nifer fawr o fudiadau yn elwa yn flynyddol.

Oes gennych chi brosiect sy'n cyrraedd nod 'Plant Mewn Angen'? **Dyddiad cau ar gyfer y rownd nesaf o grantiau yw 15fed Ionawr 2009.** Am fwy o wybodaeth ewch i www.bbc.co.uk/pudsey/grants



PWYSIG - trefniadau cwyno i blant a phobl ifanc Gwynedd

Rydym angen clywed am eich prosesau chi. Beth yw sail statudol trefniadau cwyno eich mudiad? Mae Strategaeth Cyfranogi Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd yn nodi bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gyfrannu a chael eu clywed yn y drefn o ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer. Cysylltwch â **Gwawr Davies - Swyddog Cyfranogi**, Cyngor Gwynedd am fwy o wybodaeth: **01286 679648** neu **GwawrDavies@gwynedd.gov.uk**